# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 3** E+W

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

**PENNOD 3** E+W

RHYDDHAD RHAG TRETH

**27 Deunydd a dynnir o wely afon, o wely'r môr neu o wely dyfroedd eraill** E+W

(1) Mae gwarediad trethadwy wedi ei ryddhau rhag treth os yw'n warediad deunydd sy'n gyfan gwbl ar ffurf—

(a) deunydd o fewn is-adran (2) neu (3), neu

(b) deunydd o fewn un o'r is-adrannau hynny a deunydd o fewn is-adran (4).

(2) Mae deunydd o fewn yr is-adran hon os yw wedi ei dynnu o wely unrhyw un o'r canlynol (boed naturiol neu artiffisial)—

(a) afon, camlas neu gwrs dŵr arall, neu

(b) doc, harbwr neu gyffiniau harbwr.

(3) Mae deunydd o fewn yr is-adran hon—

(a) os yw'n ddeunydd mwynol sy'n bodoli'n naturiol, a

(b) os yw wedi ei dynnu o wely'r môr yng nghwrs gweithrediadau a gyflawnir at ddiben cael deunyddiau megis tywod neu raean.

(4) Mae deunydd o fewn yr is-adran hon—

(a) os yw'n ddeunydd cymwys,

(b) os ychwanegwyd ef at ddeunydd o fewn is-adran (2) neu (3) at ddiben sicrhau nad yw'r deunydd hwnnw ar ffurf hylif, ac

(c) os nad yw swm y deunydd a ychwanegwyd yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni'r diben hwnnw.

(5) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at dynnu deunydd yn gyfeiriadau at ei dynnu drwy garthu neu mewn unrhyw fodd arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 27 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 27 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 27.